CAERDYDD AM BYTH

# CYFLAWNI MWY GYDA'N GILYDD (2026-2031)

## 8 RHESWM DROS BLEIDLEISIO 'IE' YM MIS MEHEFIN



DARLLENWCH Y CYNLLUN BUSNES LLAWN

# CYNNWYS


Amdanom Ni 2
Manteisio ar Gyfle mewn Cyfnod o Drawsnewid 3
8 Rheswm dros Bleidleisio 'Ie' 4
Dyddiadau Pleidleisio Allweddol 13




## AMDANOM NI

Caerdydd AM BYTH, enw masnachu Cardiff BID Ltd., yw'r sefydliad preifat, annibynnol, nid-er-elw a sefydlwyd yn 2016 i redeg Ardal Gwella Busnes (AGB) Caerdydd.

## BETH YW ARDAL GWELLA BUSNES?

Mae Ardal Gwella Busnes (AGB) yn ardal ddiffiniedig lle mae busnesau lleol yn cydweithio i ariannu prosiectau a gwasanaethau, drwy ardoll orfodol, sy'n gwella eu hamgylchedd masnachu. Mae'r mentrau hyn yn ychwanegol at y rhai sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol.



# 2026-2031: MANTEISIO AR GYFLE MEWN CYFNOD O DRAWSNEWID

Mae Caerdydd ar ddechrau cyfnod allweddol o drawsnewid gyda buddsoddiad sylweddol yn datgloi cyfle sylweddol, tra bod pwysau economaidd parhaus yn parhau i herio busnesau.

Rwy'n falch o arwain sefydliad sy'n hyrwyddo ei aelodau ac yn darparu llais cryf, unedig i fusnesau ar adeg mor dyngedfennol.

Rhwng 4 Mehefin a 2 Gorffennaf, rydyn ni'n gofyn i chi bleidleisio ar Gynllun Busnes Caerdydd AM BYTH. Wedi'i lunio drwy ymgynghoriad helaeth ag aelodau, mae'n amlinellu sut y byddwn yn mynd i'r afael â heriau ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.

Bydd Caerdydd AM BYTH yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth, eiriolaeth a chefnogaeth ymarferol i fusnesau yng nghanol dinas Caerdydd, gan adeiladu ar ddegawd o effaith.

Yn ein trydydd tymor fel AGB, byddwn hefyd yn ehangu i gynnwys y gymuned fusnes fywiog ym Mae Caerdydd, gan adlewyrchu holl gryfder ac amrywiaeth ein prifddinas.

Mae'r crynodeb hwn yn dangos sut y mae pobl a busnesau Caerdydd wedi llunio Cynllun Busnes Caerdydd AM BYTH ac mae'n tynnu sylw at wyth rheswm dros bleidleisio 'Ie' yn y bleidlais sydd ar ddod, fel y gallwn ni gyflawni mwy er mwyn y ddinas gyda'n gilydd.

**Carolyn Brownell, Cyfarwyddwr Gweithredol**

**MAE'R CYNLLUN BUSNES YN AMLINELLU EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER 2026-2031 YN FANYLACH, YN OGYSTAL Â GWYBODAETH ALLWEDDOL AM ARIANNU A LLYWODRAETHU I BLEIDLEISWYR.**

**I DDARLLEN Y DDOGFEN LAWN, EWCH I WEFAN CAERDYDD AM BYTH DRWY'R COD QR AR Y DUDALEN HON.**

# 8 RHESWM DROS BLEIDLEISIO 'IE' I FWY - CAERDYDD AM BYTH 2026-2031

**Mae dirnadaeth o'n hymgynghoriad helaeth wedi llunio blaenoriaethau trydydd tymor Caerdydd AM BYTH, sy'n cael eu nodi yn y crynodeb hwn, ac sy'n ymateb yn uniongyrchol i flaenoriaethau'r rhai sy'n talu'r ardoll.**

## MWY O FUDDSODDIAD I GAERDYDD

Cyllideb flynyddol o bron i £2.3 miliwn i fuddsoddi er mwyn creu dinas lanach, wyrddach a mwy diogel.

## CAERDYDD FWY CYSYLLTIEDIG

Hyrwyddo'r nod o wneud Caerdydd yn ddinas hawdd, hygyrch a chyfleus i deithio iddi ac o'i chwmpas.

## DINAS FWY CYDGYSYLLTIEDIG

Bydd Caerdydd AM BYTH yn cynnwys Bae Caerdydd, gan greu cysylltiad cryfach rhwng canol y ddinas a'r glannau.

## DYRCHAFU'R DYFODOL

Meithrin gwytnwch a llwyddiant parhaus, gan ganolbwyntio ar gymorth cynaliadwyedd ymarferol ar gyfer ein haelodau.

## CAERDYDD FWY CROESAWGAR

Gwella'r amgylchedd trefol a meithrin hyder a balchder yn y ddinas, drwy ganolbwyntio ar lendid a diogelwch.

## LLAIS CRYFACH I CHI

Gweithredu fel llais unedig, gan gynrychioli busnesau a dylanwadu ar benderfyniadau.

## MWY O RESYMAU I YMWELD

Bywiogi'r brifddinas gyda chelfyddydau, diwylliant a digwyddiadau arobryn sy'n cyfleu gwir ysbryd ac egni Caerdydd.

## CREU BUDD I'CH POBL

Cefnogi a buddsoddi yn ein haelod-fusnesau a'u gweithlu.



# 8 RHESWM DROS BLEIDLEISIO 'IE' I FWY - CAERDYDD AM BYTH 2026-2031

## 1. MWY O FUDDSODDIAD I GAERDYDD

Cyllideb flynyddol o bron i £2.3 miliwn i fuddsoddi er mwyn creu dinas lanach, wyrddach a mwy diogel.

Mae busnesau wedi cefnogi Caerdydd AM BYTH yn gyson, gyda dros 90% yn pleidleisio 'Ie' yn 2021, sy'n adlewyrchu hyder cryf yn ein cyflawni a'n heffaith:

### 2016

Pleidleisiodd **81%** o fusnesau canol y ddinas o blaid sefydlu AGB.

### ERS 2016

Buddsoddiad ychwanegol o £12+ miliwn wedi sicrhau:

- Canol dinas glanach, gwyrddach a mwy diogel.
- Ymgyrchoedd marchnata, digwyddiadau a mentrau diogelwch arobryn.
- Partneriaethau strategol i feithrin cydlyniant a gwytnwch.

### 2021

Pleidleisiodd **91%** o'r aelodau o blaid ail dymor i Caerdydd AM BYTH.

### 2026

Bydd y gyfradd ardoll arfaethedig o **1.6%** ar gyfer 2026-2031 yn cyflawni:

- **£2.3 miliwn** y flwyddyn (+£1 miliwn ar y lefelau presennol).
- **£11.5 miliwn** dros 5 mlynedd, ar gyfer canol y ddinas a Bae Caerdydd.

Bydd Caerdydd AM BYTH hefyd yn chwilio am ffrydiau incwm ychwanegol i ehangu a gwella ein darpariaeth. Yn ystod tymor presennol yr AGB, mae **£562,000** o incwm ychwanegol wedi'i sicrhau i ategu cyfraniadau'r ardoll gan fusnesau.

**Darllenwch y Cynllun Busnes llawn i gael rhagor o wybodaeth am yr ardoll:**

Byddai pleidlais 'Na' yn golygu colli'r buddsoddiad hwn a gwasanaethau Caerdydd AM BYTH, gyda'r cyfan yn diflannu ar 30 Tachwedd 2026, pan fyddai'r sefydliad yn rhoi'r gorau i fasnachu.

# 8 RHESWM DROS BLEIDLEISIO 'IE' I FWY - CAERDYDD AM BYTH 2026-2031




## 2. DINAS FWY CYDGYSYLLTIEDIG

Yn dilyn cefnogaeth gref gan aelodau i ehangu'r Ardal Gwella Busnes, bydd Caerdydd AM BYTH yn cynnwys Bae Caerdydd, gan greu cysylltiad cryfach rhwng canol y ddinas a'i glannau.

Mae cefnogwyr yn cydnabod mai cysylltedd fydd yn rhoi'r cyfle gorau i Gaerdydd, a dyma'r amser i wireddu hynny, gyda Chledrau Croesi Caerdydd ac arena newydd ym Mae Caerdydd i fod i agor yn 2028.

Bydd ehangu'r Ardal Gwella Busnes yn cynhyrchu buddsoddiad ychwanegol o £1 miliwn ym mhob blwyddyn o drydydd tymor Caerdydd AM BYTH (2026-2031).

Bydd uno canol y ddinas a Bae Caerdydd o fewn un Ardal Gwella Busnes yn cryfhau economi'r brifddinas ac yn gwella'r cydweddu rhwng economïau masnachol, diwylliannol ac ymwelwyr Caerdydd.

Byddai pleidlais 'Na' nid yn unig yn gwrthod yr estyniad i Fae Caerdydd ond byddai hefyd yn golygu colli AGB Caerdydd a'r holl brosiectau a gwasanaethau y mae'n eu darparu.



## 3. CAERDYDD FWY CROESAWGAR

Canolbwyntio ar lendid a diogelwch i wella'r amgylchedd trefol a meithrin hyder a balchder yn y ddinas.


Mae glendid yn flaenoriaeth bwysig i ymatebwyr i'r ymgynghoriad, dim ond lleihau troseddu sy'n denu ymateb uwch. Gyda datblygiadau seilwaith mawr ar droed a fydd yn dod â miliwn yn fwy o ymwelwyr bob blwyddyn i Gaerdydd, bydd gwasanaethau glanhau gwell Caerdydd AM BYTH yn fwy hanfodol nag erioed.

Bydd ein Tîm Glanhau yn parhau i ategu darpariaeth y Cyngor ac yn sicrhau bod y ddinas yn parhau i fod yn lân, yn groesawgar ac yn cael ei rheoli'n dda drwy wasanaethau ymateb cyflym a gwaredu nodwyddau.

Mae economi nos Caerdydd yn ganolog i'w llwyddiant. Byddwn yn parhau i wella diogelwch drwy ein gwasanaeth **stiwardiaid tacsis**, **Caerdydd yn Erbyn Troseddau Busnes (CABC)** a **CityNet Radio**, ynghyd â hyrwyddo a chefnogi mentrau cenedlaethol gan gynnwys **Lleoedd Diogel**, **Partneriaeth Alcohol Caerdydd (PAC)** a **Gofyn am Angela**.








8 RHESWM DROS BLEIDLEISIO 'IE' I FWY - CAERDYDD AM BYTH 2026-2031

## 4. MWY O RESYMAU I YMWELD

Byddwn yn parhau i fywiogi'r brifddinas gyda chelfyddydau, diwylliant a digwyddiadau arobryn sy'n cyfleu gwir ysbryd ac egni Caerdydd, gan ddathlu'r bobl a'r lleoedd sy'n gwneud Caerdydd yn lle mor rhyfeddolac yn cysylltu canol y ddinas a Bae Caerdydd â phrofiadau cydgysylltiedig.

**Creu Gwaddol i Gyfleoedd yn y Dyfodol**

Gyda Chaerdydd ar fin cynnal digwyddiadau rhyngwladol mawr fel y Tour de France yn 2027 a gêm agoriadol pencampwriaeth Ewrop UEFA yn 2028, bydd Caerdydd AM BYTH yn parhau i gyflwyno ymgyrchoedd, digwyddiadau a gweithrediadau sy'n creu gwaddol diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd parhaol i'n dinas.

Byddwn yn cryfhau ymgyrch arobryn Dinas yr Arcedau i gynnwys Bae Caerdydd, gan gyflwyno ymgyrchoedd trawiadol sy'n ysgogi ymweliadau, gwella enw da'r brifddinas a denu buddsoddiad.

Byddwn yn parhau i gomisiynu gosodiadau Nadolig mawr a phrofiadau tymhorol sy'n bywiogi'r ddinas ac yn annog crwydro, ac yn dal ati hefyd i ddarparu mentrau wedi'u targedu yn ystod cyfnodau masnachu tawelach i ysgogi ymweliadau.

Bydd Caerdydd AM BYTH yn hyrwyddo ein haelod-fusnesau drwy ein sianeli digidol, gan helpu i hyrwyddo gwelededd, ymweliadau a gwariant ledled y ddinas.

Wrth i Gaerdydd ddenu mwy a mwy o berfformwyr rhyngwladol blaenllaw ar daith, byddwn yn cydweithio â busnesau i fanteisio i'r eithaf ar yr adegau hyn, gan greu gweithrediadau ledled y ddinas sy'n ategu digwyddiadau mawr ac yn sbarduno cyfleoedd economaidd ar y cyd a gwaddol hirdymor.

Bydd celf gyhoeddus yn parhau'n rhan ganolog o'n cynlluniau, gyda phartneriaethau yn darparu gosodiadau dros dro a pharhaol sy'n dathlu creadigrwydd, diwylliant ac amrywiaeth y ddinas.







# 8 RHESWM DROS BLEIDLEISIO ‘IE’ I FWY - CAERDYDD AM BYTH 2026-2031

## 5. CAERDYDD FWY CYSYLLTIEDIG

Hyrwyddo’r nod o wneud Caerdydd yn ddinas hawdd, hygyrch a chyfleus i deithio iddi ac o’i chwmpas.

Mae ein hymgynghoriad wedi **tynnu sylw at y ffaith bod trafnidiaeth ddibynadwy a chosteffeithiol yn ganolog i anghenion ein haelodau.** Bydd Caerdydd AM BYTH yn parhau i **gynrychioli ein haelodau ac eirioli** ar benderfyniadau strategol ynghylch trafnidiaeth a chysylltedd.



Byddwn hefyd yn chwarae rôl ymarferol, **gan roi gwybod i’r aelodau am newidiadau teithio arfaethedig, trefniadau digwyddiadau mawr a datblygiadau seilwaith**, er mwyn sicrhau bod busnesau yn gallu cynllunio a gweithredu yn hyderus.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i **ddarparu mentrau sy’n canolbwyntio ar symudedd** i hwyluso teithio o amgylch Caerdydd, gan gynnwys gweithdai atgyweirio beiciau.

## 6. DYRCHAFU’R DYFODOL

Meithrin gwytnwch a llwyddiant parhaus, gan ganolbwyntio ar gymorth cynaliadwyedd ymarferol ar gyfer ein haelodau.



Mae ein haelodau yn cydnabod bod cysylltiad rhwng twf economaidd hirdymor a gwytnwch masnachol a chyfrifoldeb amgylcheddol, lles y gweithlu a llywodraethu cryf.

Bydd Caerdydd AM BYTH yn canolbwyntio ar **gynaliadwyedd ymarferol a chredadwy a gweithgarwch Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (ACLl) a fydd yn helpu ein haelodau i gyflawni eu hymrwymiadau cynaliadwyedd eu hunain.** Byddwn yn mapio gwerth cymdeithasol y gwaith rydyn ni’n ei gyflawni i ddeall effaith ehangach ein haelodau y tu hwnt i fuddsoddiad ariannol. Ein nod yw dod yn arweinydd yn y diwydiant AGB gydag ystod o fentrau ymarferol sy’n canolbwyntio ar fioamrywiaeth, cyfleoedd gwirfoddoli a gwelliannau amgylcheddol, sy’n meithrin Caerdydd wydn a fydd yn dal ei thir.

**LAWRLWYTHWCH EIN STRATEGAETH ACLL**

## 7. LLAIS CRYFACH I CHI

Gweithredu fel llais unedig, gan gynrychioli busnesau a dylanwadu ar benderfyniadau.





Fel **cynrychiolydd busnesau yng nghanol y ddinas a Bae Caerdydd**, bydd Caerdydd AM BYTH yn parhau i hyrwyddo’r ddinas ar lefel Cymru a’r DU. Rydyn ni’n deall yr heriau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy’n wynebu ein haelodau ac yn **ymgysylltu ar lefel drawsbleidiol, gan gynnwys ymgysylltu uniongyrchol ar drafnidiaeth, diogelwch a pholisi cenedlaethol sy’n effeithio ar amodau masnachu canol y ddinas.**

Byddwn yn adeiladu ar y sylfaen gref a ddatblygwyd yn y tymor AGB presennol, a oedd yn cynnwys: creu cyfleoedd uniongyrchol i’n haelodau ymgysylltu â gwleidyddion drwy ddigwyddiad llwyfan etholiad (hystings) i aelodau Caerdydd; cyflwyno safbwyntiau ar faterion fel y bil ardoll ymwelwyr i sicrhau bod llais busnesau yn cael ei ystyried wrth wario unrhyw arian; ac ymateb i ymgyngoriadau parhaus fel y cynllun datblygu lleol diwygiedig.



# 8 RHESWM DROS BLEIDLEISIO 'IE' I FWY - CAERDYDD AM BYTH 2026-2031

## 8. CREU BUDD I'CH POBL

Cefnogi a buddsoddi yn ein haelod-fusnesau a'u gweithlu.

- **Hyfforddiant**
  Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant sy'n cwmpasu ystod o bynciau gan gynnwys ymwybyddiaeth iechyd meddwl, diogelwch tân, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chynaliadwyedd.
- **Dinas Cydraddoldeb**
  Nod menter Caerdydd AM BYTH yw gwneud Caerdydd yn ddinas sy'n ceisio gwreiddio arferion gorau cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn gweithleoedd ledled Caerdydd, a chefnogi camau tuag at newidiadau ehangach o ran polisi, cynllunio a thir y cyhoedd mewn perthynas â bywyd y ddinas.
- **Y Cerdyn**
  Mae'r Cerdyn, sy'n darparu gostyngiadau unigryw i dimau aelodau a chyfleoedd hyrwyddo i'w busnesau, yn parhau i fod yn un o'n mentrau mwyaf poblogaidd. Bydd yn cael ei ehangu fel bod busnesau'r Bae a'u staff yn gallu elwa ar y cynllun.
- **Interniaeth**
  Mae cynllun interniaeth Caerdydd AM BYTH yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Thîm Profiad Gwaith Dyfodol Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, ac mae'n cysylltu busnesau sy'n talu ardoll Caerdydd AM BYTH â thalent sy'n codi ac yn darparu cyflogaeth deg, cyflogaeth Cyflog Byw Gwirioneddol i fyfyrwyr a phrofiad amhrisiadwy yn y diwydiant. Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gall y cynllun ddatblygu a thyfu gyda darparwyr addysg uwch eraill.
- **Cysylltu ein Haelodau**
  Byddwn yn parhau â rhaglen digwyddiadau rhwydweithio Caerdydd AM BYTH, gan ddod ag aelodau at ei gilydd, meithrin cymuned fusnes gref a chreu cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Ynghyd â hynny, byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â'n haelodau, gan sicrhau bod ein gweithgareddau yn adlewyrchu eich blaenoriaethau chi ac yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu eich busnesau.





**O'R AELODAU A HOLWYD AM DDIGWYDDIADAU RHWYDWEITHIO CAERDYDD AM BYTH, ROEDD 78% YN DYFARNU 5 SEREN NEU'N EU DISGRIFIO FEL RHAI 'ARDDERCHOG'.**

# DYDDIADAU PLEIDLEISIO ALLWEDDOL
## 15 MAI – 3 GORFFENNAF

### 15 MAI
**Hysbysiad o Bleidlais**
Bydd eich papur pleidleisio ac amlen ragdaledig swyddogol yn cael eu postio i'ch cyfeiriad busnes ar neu ar ôl y dyddiad hwn.

Cadwch lygad am eich amlen bleidleisio.

### 4 MEHEFIN
**Pleidlais yn Agor**
Gallwch ddychwelyd eich papur pleidleisio o'r dyddiad hwn. Os oes gennych chi sawl pleidlais, dychwelwch nhw i gyd yn eu hamlenni unigol. Rhaid dychwelyd eich papur pleidleisio **DRWY'R POST.**

Postiwch eich pleidlais.

### 2 GORFFENNAF
**Pleidlais yn Cau**
Er mwyn sicrhau bod eich pleidlais yn cyfrif, mae'n rhaid i chi ddychwelyd eich papur pleidleisio yn yr amlen ragdaledig i gyrraedd erbyn **5pm** ar y dyddiad hwn.

forcardiff.com

Ewch i'n gwefan i weld y canlyniadau.

### 3 GORFFENNAF
Bydd canlyniad y bleidlais yn cael ei gyhoeddi ar wefan Caerdydd AM BYTH a'r cyfryngau cymdeithasol.



PLEIDLEISIWCH 'IE'

#CyflawniMwyCaerdyddAMBYTH

Er mwyn cefnogi ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, rydyn ni'n torri'n ôl i'r eithaf ar argraffu deunyddiau. Mae fersiwn ddigidol o'r ddogfen hon yn Gymraeg a Saesneg, y Cynllun Busnes llawn a rhestr o Gwestiynau Cyffredin i'w gweld ar ein gwefan. Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer 2026-2031 yn fanylach, yn ogystal â gwybodaeth allweddol am ariannu a llywodraethu i bleidleiswyr.

**Ewch i wefan Caerdydd AM BYTH drwy'r cod QR ar y dudalen hon i ddarllen y Cynllun Busnes llawn.**